

Technoleg Bwyd Pawb

# Bara Tân Gwersylla

- Bwyd ac Iechyd
- Ysgol y Goedwig

## Trosolwg

Mae'r gweithgaredd tân gwersylla yma'n ffordd hwyliog o gyflwyno coginio awyr agored ac mae'n ffordd syml o fynd â'ch technoleg bwyd chi y tu allan. Mae hefyd yn annog mathemateg drwy fesuriadau ac yn cysylltu â thestunau cyfarwyddiadol.

## Adnoddau

Bydd hyn yn gwneud 12 o droellau bara:

- 500g o flawd codi
- 3 llwy fwrdd o siwgr
- 300 i 500ml o ddŵr neu laeth
- Llwy
- Pot
- Llwyau pren neu ganghennau glân
- Tân gwersylla

## Gweithgaredd

1. Cymysgwch yr holl gynhwysion yn drylwyr mewn powlen gyda llwy i greu toes llyfn.
2. Tylinwch y toes i'w weithio a'i ymestyn.
3. Cymerwch lond llaw fechan o does a'i rolio'n selsig hir.
4. Troellwch y toes o amgylch pen llwy bren neu gangen wedi'i stripio.
5. Gosodwch y llwy neu'r gangen uwch ben marwor tân gwersylla (nid mewn fflam uniongyrchol) a throi'n achlysurol.
6. Pan fydd yn frown euraidd, ar ôl ~10 munud, mae'n barod i'w fwynhau.

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr chi. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Creu a choginio byrbryd iach.
- Deall a dehongli testunau cyfarwyddiadol.

Isod, rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau y mae addysgwyr eraill wedi eu defnyddio ar y cyd â'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

| Maes pwnc | Testun | Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach |
|---|---|---|
| Llythrennedd ac Iaith | Testunau cyfarwyddiadol | Ysgrifennu rysáit a dilyn cyfarwyddiadau |
| Gwyddoniaeth | Bwyta'n iach | Cysyllt â dosbarthiad bwyd |
| | Egni/cyflwr mater | Archwilio sut mae'r cymysgedd yn newid a pha egni sy'n cael ei ddefnyddio |
| Technoleg Bwyd | Paratoi bwyd | Trafod paratoi bwyd a hylendid |
| Hanes | Gwareiddiadau'r gorffennol | Cysyllt â dulliau coginio traddodiadol a ryseitiau |
| Mathemateg | Mesuriadau | Pwyso'r meintiau sydd eu hangen yn fanwl gywir |
| | | Cyfrif y cynhwysion ar gyfer meintiau gwahanol |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: **ltl.org.uk/outdoor-learning-training**

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890